NOV 2005
DYFED H.E.R. ARCHAEOLOGICAL TRUST LTD

# Y Rhufeiniad yng Nghymru:
## Pecyn Dysgu Traws Cwricwlaid
## Caer Rufeinig Llandeilo



Paratowyd gan Archaeoleg Cambria
Ar gyfer Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Prepared by Cambria Archaeology
For the National Trust

REGISTERED IFA ORGANISATION

ARCHAEOLEG CAMBRIA ARCHAEOLOGY

**ARCHAEOLEG CAMBRIA ARCHAEOLOGY**

RHIF YR ADRODDIAD / REPORT NO. 2005/130
RHIF Y PROSIECT / PROJECT RECORD NO.55694

Tachwedd 2005
November 2005

# Y Rhufeiniad yng Nghymru: Pecyn Dysgu Traws Cwricwlaid Caer Rufeinig Llandeilo

Gan / By

Colette Paterson

*Archaeoleg Cambria yw enw marchnata Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed Cyfyngedig.*
*Cambria Archaeology is the marketing name of the Dyfed Archaeological Trust Limited.*

YR YMDDIRIEDOLAETH GENEDLAETHOL
THE NATIONAL TRUST

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1
EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Gyda chymorth
Cronfa Dreftadaeth y Loteri
Supported by the Heritage Lottery Fund


ARCHAEOLEG CAMBRIA
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed Cyf
Neuadd y Sir, Stryd Caerfyrddin, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin SA19 6AF
Ffon: Ymholiadau Cyffredinol 01558 823121
Adran Rheoli Treftadaeth 01558 823131
Ffacs: 01558 823133
Ebost: cambria@cambria.org.uk
Gwefan: www.cambria.org.uk

*CAMBRIA ARCHAEOLOGY*
*Dyfed Archaeological Trust Limited*
*The Shire Hall, Carmarthen Street, Llandeilo, Carmarthenshire SA19 6AF*
*Tel: General Enquiries 01558 823121*
*Heritage Management Section 01558 823131*
*Fax: 01558 823133*
*Email: cambria@cambria.org.uk*
*Website: www.cambria.org.uk*



*Cwmni cyfyngedig (1198990) ynghyd ag elusen gofrestredig (504616) yw'r Ymddiriedolaeth. The Trust is both a Limited Company (No. 1198990) and a Registered Charity (No. 504616)*
CADEIRYDD *CHAIRMAN: C R MUSSON MBE B Arch FSA MIFA.* CYFARWYDDWR *DIRECTOR: E G HUGHES BA FSA MIFA*

## Y Rhufeiniaid yng Nghymru

Dyma becyn dysgu traws cwricwlaidd fydd o gymorth i chi wrth ymweld â safle'r archwiliad archaeolegol o'r Gaer Rufeinig ym Mharc Dinefwr, Llandeilo.

Cynhyrchwyd y pecyn hwn er mwyn cynnig gwybodaeth gefndirol a chyfres o weithgareddau dosbarth i athrawon a disgyblion sy'n mynd â phartïon ysgol ar ymweliad â'r cloddiad o'r Gaer Rufeinig.

Amcan y pecyn hwn yw dangos sut y gall Hanes fel pwnc, a'r Rhufeiniaid yn arbennig, gael eu cyflwyno mewn cyfres o weithgareddau ar draws pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Y bwriad yw rhoi deunydd i ddisgyblion fydd o gymorth iddynt ddeall a dehongli'r safle pan fyddant yn ymweld a hefyd i gynnig gweithgareddau fydd o gymorth i'w haddysg gan eu hymestyn wedi'r ymweliad.

Mae'r pecyn hwn wedi'i anelu at blant blwyddyn 6, ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. Nid yw'r gweithgareddau unigol wedi'u gwahaniaethu ar gyfer amrywiaeth o alluoedd. Y gobaith yw bod yr amrywiaeth o weithgareddau yn cynnig amrediad o gyfleoedd i ddisgyblion i wneud y gorau o'r profiad yn ystod y cloddiad a bod y taflenni gwaith yn ddigon syml i'w haddasu i fod yn addas at anghenion unigol y disgyblion.

Bwriad yr hanes Saesneg/Cymraeg am Caradog a'r darllen a deall, a'r gweithgaredd Wyddoniaeth a'r Llinell Amser Hanes/Daearyddiaeth yw cynnig gweithgareddau fydd yn rhoi gwybodaeth gefndirol ynglyn â'r cyfnod hwn o hanes y Rhufeiniaid. Mae'r gweithgareddau Mathemateg, a Dylunio a Thechnoleg yn edrych ar rai o brosesau archaeoleg fydd yn cael ei esbonio i'r plant yn ystod yr ymweliad safle.

Mae'r pecyn yn cynnwys:

1) Crynodeb o oresgyniad y Rhufeiniaid yng Nghymru ar ffurf llinell amser er gwybodaeth i Athrawon.

2) Cylchlythyr Archaeoleg Cambria—yn amlinellu archaeoleg y safle, y gwaith cloddio y bwriedir ei wneud yno a hefyd cefndir hanesyddol y caerau yn Llandeilo.
3) Gwe'r Pwnc
4) Pum gweithgaredd dosbarth yn defnyddio'r deunydd hanesyddol ac arddangos rhai o'r technegau a ddefnyddir mewn cloddiad archaeolegol. Mae'r rhain yn cynnwys taflenni gwaith a byrddau cynllunio. Mae' r holl daflenni gwaith yn rhydd o hawlfraint ac ar gael i'w llungopïo.

Gobeithir bod y gweithgareddau yn hunan esboniadol gan nad oes nodiadau ffurfiol i athrawon wedi'u hamgáu, pe bai angen rhagor o wybodaeth arnoch y gobaith yw y gellir ateb eich ymholiadau yn ystod yr ymweliad safle.

Rhai o gyfeiriadau gwefan defnyddiol:

Gobeithio y byddwch yn mwynhau eich ymweliad a hoffem pe baech yn anfon rhai enghreifftiau o'r gwaith gorau a gynhyrchwyd trwy ddefnyddio'r pecyn hwn er mwyn iddynt gael eu cynnwys mewn arddangosfeydd y flwyddyn nesaf.

# Y Goncwest Rhufeinig ym Mhrydain




Mae'r Llinell Amser yn dweud pob dim wrthym am Goncwest y Rhyfeiniad ym Mhrydain.

Mae'r dyddiadau yn dangos y gwahanol rannau o Brydain y cafodd eu goresgyn gan y Rhyfeiniaid.

Gan ddefnyddio'r un lliwiau, lliwiwch ardaloedd o Brydain i ddangos pryd wnaethant gael eu goresgyn gan y Rhyfeiniad

| AD47 | AD 71 | AD 78 | AD 79 | AD84 |
|---|---|---|---|---|

# Y Goncwest Rufeinig ym Mhrydain - Llinell Amser

Nodwch enwau'r gwledydd a ddefnyddir (Lloegr, Cymru a'r Alban) fel ag yr ydym yn eu hadnabod heddiw. Mewn gwirionedd ni ddefnyddiwyd yr enwau hyn tan ar ôl i'r Rhufeiniaid adael.

| Dyddiad AD | Ymerawdwr | Digwyddiad |
|---|---|---|
| 43 | Claudius | Prydain yn cael ei oresgyn gan Fyddin Rhufeinig o 40,000 o filwyr. Y fyddin Rhufeinig yn trechu'r Brythoniaid dan arweiniad Caradog a Togodumnws. Lladdwyd Togodumnws a ffoi i Gymru wnaeth Caradog. Y Rhufeiniaid yn meddiannu'r brif ddinas sef Caer Colun {Colchester}. |
| 47 | | Mae'r Rhufeiniaid bellach wedi meddiannu ardal yn ne ddwyrain Lloegr o Lincoln i Gaerloyw [Gloucester]. Wnaethant ddechrau ymosod ar lwythi oedd yn byw yng Nghymru dan arweiniad Caradog. |
| 51 | | Trechir Caradog. Mae'n dianc i ogledd Lloegr dim ond i'w fradychu gan y Frenhines Cartimandua gan ei roi yn nwylo'r Rhufeiniaid. Wnaeth y llwythau yng Nghymru barhau a'u herwryfela. |

| | | |
|---|---|---|
| 60 | Nero | Ymosododd y Rhufeiniaid ar gadarnle'r Derwyddion yn Ynys Mon. |
| 61 | | Cafwyd gwrthryfel ymysg y llwythau yn ne ddwyrain Lloegr dan arweiniad y Frenhines Buddug. Wnaethant ymosod ar a llosgi Caer Colun, Llundain a St Albans. Wedi iddi gael ei threchu gan y Rhufeiniaid, wnaeth Buddug gyflawni hunan laddiad. |
| 71 | Vespasian | Mae'r Rhufeiniaid bellach wedi goresgyn gogledd Prydain. |
| 74 | | Mae'r Rhufeiniaid unwaith eto yn ymosod ar Gymru gyda byddin anferthol a leoli'r mewn caerau yng Nghaerleon, Wroxeter a Chaer. |
| 78 | | O'r diwedd y rhufeiniaid yn goresgyn Cymru gyfan. Wnaethant ddechrau ar eu meddiant milwrol ac adeiladu caerau (tebyg i'r un yn Llandeilo) a ffyrdd milwrol. |
| 79 | Titus | Y Rhufeiniaid yn goresgyn de'r Alban. |
| 84 | Domitian | Y Rhufeiniaid yn goresgyn gogledd Yr Alban. |

| | | |
|---|---|---|
| 98 | Trajan | Trajan yn dod yn Ymerawdwr newydd ac mae angen y fyddin ym Mhrydain arno er mwyn ymladd rhyfeloedd mewn mannau eraill yn yr Ymerodraeth Rufeinig. Gan fod cyn lleied o filwyr ar ôl ym Mhrydain mae'r Rhufeiniaid yn gadael Yr Alban. |
| 117 | Hadrian | Gwaith yn dechrau ar adeiladu Mur Hadrian (rhwng Newcastle a Chaerliwelydd [Carlisle]) er mwyn amddiffyn gogledd Lloegr rhag llwythau'r Alban. |
| 138 | Antoninus Pius | Unwaith eto y Rhufeiniaid yn goresgyn de'r Alban ac yn adeiladu Mur Antonine (rhwng y Clyde a'r Forth) er mwyn amddiffyn y tir newydd yr oeddynt wedi ei oresgyn. |

# Hanes Caradog - Arwr y Brythoniaid

Wnaeth y Rhufeiniaid oresgyn Prydain yn AD 43. Caradog oedd y Brenin ar y Catuvellauni, llwyth a geisiodd atal y Rhufeiniaid rhag goresgyn Prydain. Wedi trechu'r Catuvellauni, wnaeth Caradog ddianc ac ymuno gyda'r llwythau oedd yn byw yng Nghymru.

Yng Nghymru, wnaeth Caradog a'i fyddin lwyddo i wrthsefyll y Rhufeiniaid am gyfnod o bron i naw mlynedd rhwng AD43 ac AD51.

Roedd Caradog a'i ddynion yn adnabod bryniau Cymru'n dda gan eu defnyddio fel mantais yn erbyn y Rhufeiniaid. Fe fyddent yn ymosod ar gaerau'r Rhufeiniaid ac yna cilio yn ôl i'r bryniau i guddio.

Yn AD51, penderfynodd Caradog ei fod am ddod o hyd i'r man delfrydol ar gyfer y frwydr olaf yn erbyn y Rhufeiniaid. Roedd yn gobeithio y byddai'r frwydr yn rhoi buddugoliaeth fawr iddo. Daeth o hyd i le oherwydd yr afon a'r mynyddoedd y byddai'n anodd i'r Rhufeiniaid ymosod a chilio. Yna adeiladodd amddiffynfeydd o amgylch ei ryfelwyr.


Serch hynny, colli wnaeth y Brythoniaid yn erbyn y Rhufeiniaid. Roedd yn fuddugoliaeth wych. Daliwyd gwraig Caradog, eu merch a'i frodyr. Dianc a ffoi wnaeth Caradog i Deyrnas y Brigantes yng ngogledd Prydain.

Cartimandua oedd Brenhines y Brigantes. Roedd wedi clywed am y Rhufeiniaid a'u brwydrau. Roedd wedi gweld yr holl grochenwaith, gwydr a gwaith metel hardd yr oedd y Rhufeiniaid yn eu gwneud. Clywodd straeon am adeiladau crand y Rhufeiniaid a'r toeon o deils a'r gwleddoedd mawr gyda'r bobl yn gorwedd ar glustogau. Nid yn unig eu bod yn rhyfelwyr gwych ond roedd hefyd yn meddwl eu bod yn mwynhau bywydau cyfoethog a moethus.

Wnaeth Caradog erfyn ar Cartimandua i'w ddiogelu a'i guddio rhag y Rhufeiniaid. Wnaeth Cartimandua esgus ei bod yn mynd i helpu Caradog, ond anfonodd negeseuon cyfrinachol at y Rhufeiniaid.


Anfonodd y Rhufeiniaid filwyr a dal Caradog. Rhoddodd y Rhufeiniaid anrhegion i Cartimandua gan addo ei diogelu rhag y Fyddin Rufeinig.

Aethpwyd â Caradog a'i deulu i Rufain lle wnaeth yr Ymerawdwr Clawdiws eu cerdded trwy strydoedd Rhufain.



*Dyma ddarlun o Caradog yn cerdded trwy strydoedd Rhufain wedi iddo gael ei ddal gan yr Ymerawdwr Clawdiws.*

Daeth y Rhufeiniaid i gyd allan i weld Caradog. Roeddynt wedi clywed yr hanesion am mor glyfar a dewr yr oedd Caradog wedi bod, yn ymladd yn erbyn grym yr Ymerodraeth Rufeinig am gymaint o flynyddoedd. Roeddynt yn rhyfeddu bod y Brenin Caradog yn cerdded trwy strydoedd Rhufain mor falch a herfeiddiol. Roedd yn gwrthod plygu a bod yn ostyngedig i'r Rhufeiniaid, hyd oed ei fod wedi ei ddal ac yn mynd i'w gael ei ladd.



*Darlun o Caradog yn siarad gerbron yr Ymerawdwr.*

Safodd Caradog gerbron Tribiwnlys yr Ymerawdwr a dweud ei fod ef yn dod o linach bonheddig ac yn frenin a'i fod yn gyfartal â'r Ymerawdwr. Fel brenin roedd yn iawn i ymladd yn erbyn y Rhufeiniaid er mwyn amddiffyn ei diroedd a'i bobl.

Dyma ddywedodd wrth yr Ymerawdwr "Os ydych chi'r Rhufeiniaid yn dewis ei lordio hi dros y byd, a ydy hynny'n golygu bod yn rhaid i'r byd dderbyn caethwasiaeth?" Yna dywedodd wrth y tribiwnlys pe baent yn ei ladd fyddai neb yn ei gofio, ond "pe baech yn achub fy mywyd, byddaf yn goffa tragwyddol o'ch trugaredd."



*Llun o'r Ymerawdwr Clawdiws*

Roedd araith Caradog wedi creu gymaint o argraff ar yr Ymerawdwr nes iddo rhyddhau ef a'i deulu cyfan. Wnaethant fyw gweddill eu hoes yn Rhufain.

# Portread o Caradog

Gan:________________

Portread o Caradog

Caradog oedd ________________________________________.

Ymunodd â'r llwythau yng Nghymru er mwyn ________________

_____________________________________________________.

Wnaeth y Rhufeiniaid drechu Rhyfelwyr y Brythoniaid a_____
Wnaeth Caradog erfyn ar ___________ i'w guddio rhag y Rhufeiniaid.
Ond_____________________________________________

______________________________________________________.

Cafodd Caradog ei ddal gan y Rhufeiniaid ac aed ag ef i Rufain.

Roedd Caradog yn ddewr iawn. Dywedodd wrth Dribiwnlys yr Ymerawdwr

_______________________________________________

Wnaeth Caradog greu cymaint o argraff ar yr Ymerawdwr nes iddo ____________

Wnaeth Caradog a'i deulu fyw gweddill eu hoes yn _____


_______________________________________________

# Gwyddoniaeth

## Defnyddio Magnedau mewn Archaeoleg. Edrych o dan y ddaear.

Mae'r nodweddion a welir mewn magnedau ac a ddefnyddir mewn geoffiseg hefyd yn cael eu defnyddio mewn archaeoleg. Mae geoffiseg yn defnyddio'r egwyddor bod gan wahanol ddeunyddiau nodweddion magnetig gwahanol. Mae magned yn wrthrych sydd â deunyddiau penodol ynddo, sy'n creu maes magnetig. Trwy ddefnyddio geoffiseg, gall archaeolegwyr fesur y newidiadau o ran cryfder magnetig mewn ardal.

Dyma lun o archaeolegwr yn mesur newidiadau mewn cryfder magnetig trwy'r ddaear.



Mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio i greu darlun o'r hyn sydd o dan y ddaear.

Mae'r darlun a gynhyrchwyd yn edrych fel hyn ym Mharc Dinefwr:



Mae'r llinellau tywyll a golau yn amlinellu'r adeiladau, ffyrdd, ffosydd ac ati. Mae hyn yn dangos i archaeolgwyr bod olion nid un ond dwy Gaer Rufeinig yn gorwedd o dan y cae.

Er mwyn deall sut y mae'r Magnetrometreg Geoffiseg hwn yn gweithio mae'n bosib gwneud archwiliad syml yn y dosbarth i nodweddion magnetau.

# Archwiliad

Mae angen i ni wybod y gall:

Magned dynnu rhywbeth tuag ato.

Nod:
I ddangos bod magned yn gallu gweithio trwy ddeunyddiau, yn yr achos hwn papur.
Gweld beth yw trwch y papur y gellir ei roi rhwng y fagned a chlip papur metel tan na ellir symud y clip gan y fagned.

Offer:
Magnetau cryf
Clipiau Papur Metel
Taflenni o bapur a llyfrau ysgrifennu

Dull:

- Rhowch nifer fechan o glipiau papur metel ar daflen o bapur.
- Dewiswch fagned.
- Daliwch y fagned o dan y papur. Gallwch symud y clipiau papur o amgylch y papur trwy ddefyddio'r fagned?
- Gofynnwch i'r plant i feddwl am arbrawf fydd yn dangos cryfder magned a sut y gallwn weld cryfder magned trwy bapur a cherdyn o wahanol drwch.
- Atgoffwch y plant bod angen arbrawf teg. Dim ond un newidyn unigol sydd ei angen:

    Rhaid defnyddio'r un fagned bob tro a hefyd dylid defnyddio'r un nifer o glipiau papur. Trwch y papur rhwng y fagned a'r clipiau papur dylid ei newid.

## Cofnodi:

Defnyddiwch y tabl hwn i gofnodi yr hyn a welwch.

| Magned | Nifer y taflenni papur neu lyfrau ysgrifennu. | A wnaeth y clipiau papur symud? |
|---|---|---|
| | 1 | |
| | 10 | |
| | 1 llyfr ysgrifennu | |
| | 2 llyfrau ysgrifennu | |
| | 5 llyfrau ysgrifennu | |
| | Trwy ddesg | |


## Gwaith Estynedig:

Dylai'r disgyblion drafod y cwestiynau canlynol:

- A oes yna unrhyw un o'r magnedau sy'n ddigon cryf i symud clipiau papur trwy lyfr neu drwy'r ddesg?
- Beth fyddai'n digwydd pe bae gennym fagnedau cryfach?
- A fyddai unrhyw wahaniaeth pe baech yn defnyddio 'naddion haearn' yn hytrach na chlipiau papur?

# Dylunio a Thechnoleg

Darlleniad o'r Gaer Rufeinig a dehongli cynllun



Dyma llorgynllun o'r Gaer Rufeinig yn Llandeilo

Lliwiwch:

Y prif ffyrdd ---------------------------------- Coch

Tŷ'r Pennaeth ------------------------ Melyn

Adeilad y Pencadlys -------------------- Gwyrdd

Yr ysgubor (lle cedwir y bwyd) ----------- Glas


Y barics (lle roedd y milwyr yn byw) -------- Du

Y tyrrau a'r porthdy --------------- Porffor

Adeiladwyd y caerau Rhufeinig er mwyn iddynt fod yn rhwydd i'w hamddiffyn. Roedd y muriau allanol a'r pyrth yno i amddiffyn y milwyr tu fewn.

Fel arfer roedd y caerau yn cael eu rhoi mewn mannau oedd yn golygu eu bod yn rhwydd i filwyr oedd yn sefyll yn y tyrrau weld am filltiroedd oddi amgylch gan weld unrhyw un yn dod at y gaer. Hefyd roeddynt yn gallu ymladd brwydrau o'r ragfuriau a thyrrau.

# Mathmateg




Mae'r cloddiad wedi ei rannu i mewn i gyfres o sgwariau grid.
Dyma gynllun o Dŷ Rhufeinig.

Dyma rai o'r pethau a ddarganfuwyd yn ystod y cloddiad.

A allwch chi ddod o hyd i'r cyfesurai cywir ar gyfer pob un er mwyn i'r archaeolegwyr fedru cofnodi lle wnaethant ddod o hyd iddynt.

 Ceiniog C3


 Hoelen Haearn

 Broetsh Rufeinig

 Pen picell

 Pot o Glai

 Asgwrn Anifail




Dyma grid gwag.

Dychmygwch eich bod chi'n archaeolegydd.

Tynnwch lun o'r cynllun ar gyfer eich cloddiad.

Meddyliwch am bethau Rhufeinig y gellir eu darganfod a thynnwch lun ohonynt ar eich cynllun.

Ysgrifennwch gyfesurai'r pethau hyn.

1.________________ 2. ________________

3. ________________ 4.________________

# Y Rhufeiniad yng Nghymru:
# Pecyn Dysgu Traws Cwricwlaid
# Caer Rufeinig Llandeilo

**RHIF YR ADRODDIAD / REPORT NUMBER**

**Tachwedd 2005**
**November 2005**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan / This report has been prepared by Gwilym Hughes

Swydd / Position: Trust Director

Llofnod / Signature ........................................ Dyddiad / Date

Mae'r adroddiad hwn wedi ei gael yn gywir a derbyn sêl bendith
This report has been checked and approved by Ken Murphy

ar ran Archaeoleg Cambria, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed Cyf.
on behalf of Cambria Archaeology, Dyfed Archaeological Trust Ltd.

Swydd / Position: Principal Archaeologist

Llofnod / Signature ...................................... Dyddiad / Date

Yn unol â'n nôd i roddi gwasanaeth o ansawdd uchel, croesawn unrhyw sylwadau sydd gennych ar gynnwys neu strwythur yr adroddiad hwn

As part of our desire to provide a quality service we would welcome any comments you may have on the content or presentation of this report